Elysium Healthcare



# Aderyn

Penperlleni, ger Pont-y-pŵl,
Sir Fynwy, Cymru NP4 0AH

**Ffôn: 01873 881221**
**E-bost:** **aderyn@elysiumhealthcare.co.uk**

Mae ysbyty Aderyn yn wasanaeth adsefydlu cleifion mewnol iechyd meddwl Lefel 2 sy'n darparu gofal a thriniaeth i ddynion sydd ag anghenion adsefydlu iechyd meddwl dynodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod hefyd ag anabledd dysgu, sydd â diagnosis o awtistiaeth neu anhwylder personoliaethol. Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer anghenion penodol pob claf.

Mae bwthyn adsefydlu 2 ystafell wely ar y tir. Mae hwn yn cynnig y cyfle i gael llwybr gofal fel gwasanaeth cyn-rhyddhau neu gymorth i'r rhai sydd angen mwy o hyder i fod yn gwbl annibynnol.

Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio dull therapiwtig, gan gefnogi unigolion i ddysgu sgiliau newydd a chynnal y galluoedd sydd eu hangen ar gyfer byw yn y gymuned a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Caiff y gofal ei ddarparu mewn awyrgylch cynnes a chefnogol sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar botensial pob unigolyn, cynyddu eu hunan-barch, hyrwyddo annibyniaeth, a gwella ansawdd eu bywyd yn gyffredinol.

**Cipolwg ar y gwasanaeth:**

- 2 — Gwasanaeth **Lefel 2**
- Cyfanswm o **17** o welyau*
- Gwasanaeth i **ddynion**
- 18+ — **18** oed a throsodd

*gyda 2 wely ychwanegol yn y bwthyn*



## Pwy rydym yn eu cefnogi

Gall Aderyn gefnogi dynion

- 18 oed a throsodd
- Sydd ag anghenion adsefydlu iechyd meddwl dynodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod hefyd ag anabledd dysgu, sydd â diagnosis o awtistiaeth neu Anhwylder Personoliaethol
- Sydd ag ymddygiadau sy'n herio neu sy'n cael eu gweld fel rhai sy'n herio gwasanaethau
- A allai fod â hanes o gamddefnyddio sylweddau neu alcohol
- A allai fod â hanes o drawma
- A allai fod â hanes fforensig a/neu sy'n camu i lawr o wasanaethau diogel
- Pobl sy'n eu hystyried eu hunain yn ddynion, p'un a ydyn nhw'n trawsnewid ai peidio, a'r rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn anneuaidd, rhyweddhylifol, rhywedd anghydffurfiol neu rywedd cwiar
- Wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2007) neu'n anffurfiol
- Sy'n anelu at ddychwelyd i'r gymuned neu i ofal yn y gymuned



## Y tîm

Dyma ein Tîm Amlddisgyblaethol yn Aderyn:

- Dyma ein Tîm Amlddisgyblaethol yn Aderyn:
- Cyfarwyddwr Ysbyty
- Seiciatrydd Ymgynghorol
- Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig
- Nyrs Practis
- Seicolegydd
- Therapydd Galwedigaethol a Gweithwyr Cymorth Therapi
- Gweithiwr cymdeithasol
- Gweithwyr Cymorth


## Beth rydym yn ei wneud

Mae Aderyn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar adferiad, gan rymuso unigolion drwy raglenni gweithredol sy'n meithrin gobaith a chyfleoedd. Rydym yn defnyddio'r adnodd Recovery Star, sy'n cefnogi unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl tymor byr a thymor hir amrywiol.

Mae'r amgylchedd therapiwtig yn hyrwyddo adferiad cleifion, eu diogelwch a pherthnasoedd rhyngbersonol cadarnhaol. Rydym yn cefnogi lleihau symptomau drwy reoli meddyginiaethau a/neu therapi parhaus, mwy o hunanreolaeth ar symptomau ac ailintegreiddio i'r gymuned drwy ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol, cyflogaeth, addysg a gweithgareddau hamdden.

## What support we offer

Rydym yn defnyddio dull adfer cydweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar drawma. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal holistaidd personol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.



Mae'r tîm clinigol yn darparu mewnbwn seicolegol ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT), ymwybyddiaeth ofalgar a rhaglenni atal llithro'n ôl. Mae gennym ni glinigwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn asesu awtistiaeth a diagnosis awtistiaeth.

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn dysgu technegau hunanreoli, fel adnabod symptomau, datrys gwrthdaro, a rheoli dicter. Mae therapïau unigol a grŵp yn cynnwys atal llithro'n ôl, camddefnyddio sylweddau, a Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR) ar gyfer trawma yn y gorffennol. Cynigir gweithgareddau ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar hefyd, gan gynnwys ioga.

## Galluogi unigolion i gyrraedd eu llawn botensial

Mae rhaglenni gofal sydd wedi'u teilwra'n unigol yn dilyn fformat "gwaith, gorffwys a chwarae". Mae'r sesiynau craidd yn cynnwys adfer iechyd meddwl, cymorth seicolegol, Cynlluniau Gweithredu Adfer Lles (WRAP) ac adfer cyffuriau ac alcohol. Mae amser hefyd i ddatblygu a dilyn diddordebau a gweithgareddau hamdden fel campfa gymunedol, teithiau darganfod, siopa a reidio beic. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn parhau i fod yn berthnasol i'r cynnydd a'r nodau.

Mae Aderyn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwaith go iawn a phrofiad gwaith cymunedol, gan gynnwys rolau fel Arweinydd Ailgylchu, Arweinydd Hylendid yn y gegin ymarfer, Cynorthwyydd Garddwriaeth, a Dosbarthwr Papurau Newydd. Mae'r tîm clinigol hefyd yn cydweithio ag asiantaethau allanol i gynnig cyfleoedd profiad gwaith priodol i gleifion. Mae Aderyn yn gweithio'n agos gyda Phrifysgolion Cymru, yn enwedig Prifysgol De Cymru, ac mae'n cefnogi lleoliadau myfyrwyr yn yr uned.

## Beth sydd o'n cwmpas

Mae Aderyn mewn rhan brydferth o Gymru, gyda mynediad hawdd at adnoddau cymunedol ac mae trafnidiaeth gyhoeddus hwylus gerllaw. Caiff pobl eu hannog i ddatblygu cysylltiadau cymunedol cryf.

## Sut mae atgyfeirio:


Llinell atgyfeirio 24 awr
**0800 218 2398**

Anfonwch e-bost at:
**referrals@elysiumhealthcare.co.uk**


I weld ein taith fideo, ewch i **elysiumhealthcare.co.uk**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn ieithoedd gwahanol, Braille, Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain ar gais**